

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (STRYD  
FAWR, BETHESDA, GWYNEDD) (GWAHARDD  
CERBYDAU DROS DRO) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gallu cynnal digwyddiad Cárnifal Bethesda ar gefnffordd yr A5, neu gerllaw iddi, ym Methesda, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y digwyddiad, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A5 o'r enw Stryd Fawr, Bethesda sy'n ymestyn o'i chyffordd â Ffordd y Stesion hyd at ei chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at y cae pêl-droed.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 21 Mai 2022 a bydd yn para am 1 diwrnod. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol rhwng 13:00 a 13:30 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw. Oherwydd y bydd y ffordd ar gau am gyfnod byr yn unig, ni fydd angen llwybr dargyfeiriol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A5 TRUNK ROAD (HIGH STREET,  
BETHESDA, GWYNEDD) (TEMPORARY  
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2022**

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to enable the Bethesda Carnival event to be held on or near the A5 trunk road at Bethesda, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the event, from proceeding on the length of the A5 trunk road known as High Street, Bethesda that extends from its junction with Station Road to its junction with the access road leading to the football ground.

The Order comes into force on 21 May 2022 and has a duration of 1 day. The temporary prohibition is expected to operate from 13:00 – 13:30 hours on that date. Due to the short duration of the closure, no diversionary route will be necessary.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government